

Cronfa Cymunedau'r Arfordir
Adroddiad cynnydd blynyddol
2014



Cyflwynir gan y Gronfa Loteri Fawr ar ran
Llywodraeth y DU a Gweinyddiaethau
Datganoledig Cymru, Yr Alban a Gogledd Iwerddon



Cynnwys

Rhagair gan y Gweinidog	4
Cyflwyniad	5
Ynglŷn â Chronfa Cymunedau'r Arfordir	6
Cymunedau'r arfordir yn y DU	8
Ymateb i anghenion cymunedau'r arfordir	12
Cynnydd hyd yma	14
Penawdau Cronfa Cymunedau'r Arfordir	22
Camau nesaf	24
Astudiaethau achos prosiectau	26


“Bydd cymunedau'r arfordir ar draws y DU yn derbyn hwb ariannol gwerth miliynau o bunnoedd bob blwyddyn gan Gronfa Cymunedau'r Arfordir newydd. Bydd y gronfa newydd hon yn cael ei hariannu gan y Llywodraeth trwy ddyrannu ariannu cyfwerth â 50 y cant o'r refeniw o weithgareddau morol Ystâd y Goron”

Canghellor y Trysorlys
Y Gwir Anrh. George Osborne
Gorffennaf 2011


Roeddwn yn ddifon ffodus i dyfu i fyny ar Ynys Colonsay, cymuned arfordirol sy'n debyg iawn i'r rhai sy'n ymddangos yn yr adroddiad hwn, a phryd bynnag y dychwelaf, neu'n ymweld â rhai eraill tebyg ar draws y DU, mae'r ymrwymiad a'r ymdrech sydd ynghlwm wrth adeiladu pob ardal leol yn gwneud gwir argraff arnaf. Dyna beth yw amcan Cronfa Cymunedau'r Arfordir (CCA): grymuso cymunedau lleol i ledaenu twf yn gyfiawn ar draws y DU, gan sicrhau bod ein cymunedau arfordirol prydferth a deinamig yn parhau i ddatblygu ac amrywiaethu er mwyn iddynt fod yn economïau bywiog trwy gydol flwyddyn sy'n ffynnu yn y 21ain ganrif. Mae'r Llywodraeth am helpu cymunedau'r arfordir i ddatgloi'r potensial am dwf na ellir ei harneisio ond yn lleol trwy gynnwys cymunedau a busnesau lleol. Sefydlais CCA yn 2012 i sicrhau bod cymunedau'r arfordir yn rhannu buddion eu hadnodd naturiol mwyaf, y môr. Felly, mae CCA yn buddsoddi hanner y refeniw a gynhrychir gan ddatblygiad Ystâd y Goron o adnoddau arfordirol ac alltraeth yn ôl i mewn i gymunedau arfordirol.

Mae'n bleser gennyf gyflwyno'r adroddiad hwn, sy'n amlygu cyflawniadau a chynnydd CCA yn y ddwy rownd ariannu gyntaf rhwng 2012 a 2014. Hyd yma mae bron £150m wedi'i ymrwymo i CCA gan y Llywodraeth i gefnogi

datblygiad economaidd cymunedau arfordirol trwy hyrwyddo twf economaidd a swyddi cynaliadwy, er mwyn i bobl fedru ymateb yn well i anghenion a chyfleoedd economaidd newidiol eu hardal. Rydym eisoes wedi buddsoddi mewn 103 o brosiectau ar draws y DU, o Shetland i Gernyw. Mae'r prosiectau hyn eisoes yn cael effaith sylweddol ar adeg pan fydd swyddi'n flaenoriaeth. Hyd yma, y rhagamcaniad yw y bydd prosiectau'n creu ac yn diogelu bron 10,000 o swyddi, ac maent wedi helpu denu £100m pellach i mewn - buddsoddiad sylweddol iawn. Bydd y prosiectau a ariannwyd o dan Rownd 3 y Rhaglen CCA yn cychwyn yn gynnar yn 2015, ac mae'r Llywodraeth yn edrych ymlaen at y Gronfa'n creu mwy o swyddi, cefnogi mwy o fusnesau a chynnal twf pellach yn ein trefi a chymunedau glan môr. Edrychaf ymlaen at y Gronfa hon yn parhau i gefnogi cymunedau'r arfordir am flynyddoedd lawer i ddod.



Danny Alexander,
Prif Ysgrifennydd y Trysorlys



Mae cymunedau'r arfordir yn rhan fawr o bwy ydym ni fel gwlad, gyda mwy na 10% ohonom ni'n byw mewn ardaloedd arfordirol, a llawer mwy yn ymweld â nhw yn aml am waith a hamdden. Yn yr adroddiad cynnydd cyntaf hwn ar y CCA, rydym yn falch o arddangos yr amrywiaeth eang o brosiectau y mae'r gronfa wedi'u cefnogi ar draws y DU.

Er bod rhaglenni'r Llywodraeth yn creu buddion ar gyfer ardaloedd arfordirol, mae CCA yn darparu cyfle i fuddsoddi'n benodol mewn economïau'r arfordir mewn ffordd hyblyg sy'n cymryd amgylchiadau lleol i ystyriaeth. Yn ei dwy flynedd gyntaf o weithredu mae'r gronfa wedi helpu cymunedau'r arfordir, rhai mawr a rhai bach, i gefnogi prosiectau llawn dychymyg ac arloesol sydd, yn ogystal â chreu swyddi a thwf, yn helpu adeiladu cymunedau cryfach a mwy amrywiol. Er enghraifft, mae'r gronfa'n gefnogi prosiectau sy'n galw ar asedau glan môr a threftadaeth trefi glan môr - megis datblygu'r Gromen Sbaenaidd eiconig ym Mae Whitley a chanolfan ymwelwyr yn y Ddeorfa Gimychiaid yn Padstow (gweler tudalennau 26 a 27) - ond mae hefyd yn helpu cymunedau sy'n awyddus i fanteisio ar botensial cyfleoedd newydd fel ynni adnewyddadwy a'r economi greadigol a digidol

- megis y prosiect RAKtrain yn Nwyrain Anglia, sy'n helpu hyfforddi pobl leol ar gyfer swyddi yn y sector gwynt alltraeth (gweler tudalen 32).

Rydym bellach yn gweld effaith y prosiectau hyn a llawer o rai eraill o'r ddwy rownd ariannu gyntaf - yr wyf wedi cael y pleser o ymweld â llawer ohonynt - ac mae'r adroddiad hwn yn dangos sut mae'r cyflawniadau hyn yn creu ac yn cynnal twf economaidd o gwmpas ein morlin. Mae'r stori hyd yma'n galonogol, gyda mwy na 3,000 o swyddi'n cael eu creu a'u diogelu, dros 600 o brentisiaid yn cael eu cefnogi a bron 4,000 o bobl yn derbyn hyfforddiant. Edrychaf ymlaen at weld y cynnydd pellach y bydd yr holl brosiectau CCA yn ei wneud dros y blynyddoedd i ddod a'r gwahaniaeth y byddant yn ei wneud i gymunedau o gwmpas y wlad.



Penny Mordaunt
Gweinidog Cymunedau'r Arfordir



Deorfa Gimychiaid Genedlaethol Padstow



Cynllun Hurio
Beiciau Plymouth

Ynglŷn â Chronfa Cymunedau'r Arfordir

Mae Cronfa Cymunedau'r Arfordir (CCA) yn rhaglen DU gyfan a ariennir gan Lywodraeth y DU trwy ddyrannu ariannu sy'n gyfwerth â 50 y cant o'r refeniw o weithgareddau morol Ystâd y Goron.

Mae CCA yn annog datblygiad economaidd cynaliadwy cymunedau'r arfordir trwy ddarparu ariannu i greu twf economaidd a swyddi cynaliadwy er mwyn i bobl fedru ymateb yn well i anghenion a chyfleoedd economaidd newidiol eu hardal. Mae'r rhaglen yn canolbwyntio ar ganlyniad sengl sef y **bydd cymunedau'r arfordir yn profi adfywio a thwf economaidd trwy brosiectau sy'n creu swyddi cynaliadwy yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, ac yn diogelu swyddi cyfredol.**

Mae'r arian wedi'i ddyrannu i Gymru, Lloegr, Yr Alban a Gogledd Iwerddon yn gymesur â refeniw morol Ystâd y Goron a gynhyrchir ym mhob gwlad. Yn yr Alban mae'r Gronfa wedi'i dyrannu ymhellach rhwng yr Ucheldiroedd a'r Ynysoedd a gweddill yr Alban. Mae gan bob gwlad flaenoriaethau ariannu penodol ar gyfer CCA.

Mae'r rhaglen wedi'i chyflwyno gan y Gronfa Loteri Fawr ar ran Llywodraeth y DU a Gweinyddiaethau Datganoledig Cymru, Yr Alban a Gogledd Iwerddon.

Mae grantiau o £50,000 a throsodd ar gael i ystod o fudiadau gan gynnwys elusennau, mentrau cymdeithasol, awdurdodau lleol, partneriaethau menter lleol, asiantaethau datblygu, mudiadau'r sector gwirfoddol a chymunedol a chwmnïau sector preifat.



Proses monitro ac asesu CCA

Mae CCA yn dyfarnu arian i brosiectau sy'n gweddu'n gryf i nod a chanlyniad y rhaglen; hynny yw, y bydd y prosiect yn creu swyddi newydd neu'n diogelu swyddi presennol yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol. Dyfernir arian CCA i'r brosiectau hynny sy'n gweddu orau i'r meini prawf canlynol:

- ▶ Creu swyddi/cynnal swyddi presennol yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol.
- ▶ Angen clir am y prosiect.
- ▶ Bodloni'r canlyniad CCA a'r blaenoriaethau gwlad.
- ▶ Gweddu i gynlluniau a blaenoriaethau lleol.
- ▶ Cyflwyno canlyniadau arfaethedig yn llwyddiannus.
- ▶ Parhad ar ôl i CCA orffen.
- ▶ Cynrychioli gwerth da am arian.
- ▶ Wedi'i gyflwyno erbyn 31 Rhagfyr 2016.

I ddeall effaith economaidd dyfarniadau CCA, mae prosiectau'n cael eu harfarnu yn erbyn fframwaith dangosyddion. Mae'r holl brosiectau CCA yn adrodd ar ganlyniadau swyddi, ac yn erbyn penawdau dangosyddion ychwanegol pan fo'n berthnasol:

- ▶ Swyddi.
- ▶ Busnes.
- ▶ Twristiaeth.
- ▶ Sgiliau.
- ▶ Isadeiledd.
- ▶ Amgylcheddol.
- ▶ Adeiladu Gallu.

Hyd yma, mae tair rownd CCA wedi'u cynnal:

- ▶ Yn Rownd un (2012-13) dyfarnwyd £26.1m i 51 o brosiectau.
- ▶ Yn Rownd dau (2013-2014) dyfarnwyd £27.6m i 52 o brosiectau.
- ▶ Erbyn mis Mawrth 2014, mae £20.7m wedi'i wario gan brosiectau Rownd un a dau.
- ▶ Ar 7 Mawrth 2014, lansiodd gweinidogion rownd tri (2014-2017), rownd derfynol y gronfa, gyda thua £64m ar gael.

- ▶ Arian wedi'i Drosoli.

Mae'r adroddiad monitro hwn yn canolbwyntio ar ddwy agwedd allweddol:

- adrodd am gynnydd; a
- darparu astudiaethau achos i ddangos y mathau o brosiectau rydym wedi buddsoddi ynddynt.

Mae'r wybodaeth ddiweddaraf ar gael ar wefan Cronfa Cymunedau'r Arfordir, gan gynnwys manylion yr holl ddyfarniadau hyd yma: www.biglotteryfund.org.uk/welsh/global-content/programmes/uk-wide/coastal-communities

Cymunedau'r arfordir yn y DU

Gall cymunedau arfordirol y DU fod mor wahanol â'i gilydd ag y maent o'i cymharu ag aneddiadau mewndirol. Mae cymunedau arfordirol yn amrywio'n sylweddol - o'r rhai mwyaf difreintiedig i'r rhai mwyaf cyfoethog, yn aml yn agos iawn at ei gilydd.

Yn yr un modd, ar draws gwledydd y DU, mae ymwahaniad rhwng rolau economaidd lleoliadau arfordirol. Yn Lloegr, mae llawer o gymunedau arfordirol, gan gynnwys rhai trefi a dinasoedd o faint sylweddol, yn dioddef o effeithiau perifferoldeb. Ac i'r gwrthwyneb, ar draws gweddill y DU, mae bron yr holl aneddiadau allweddol yn arfordirol. Mae blaenoriaethau CCA wedi'u llunio ar lefel y gwledydd i adlewyrchu'r ymwahaniadau hyn.



Ymddiriedolaeth Rheilffordd Lynton a Barnstaple
(Parc Cenedlaethol Exmoor)

Er y bydd pob cymuned arfordirol yn unigryw, mae rhai ffactorau cyffredin megis:

Cyflogaeth: datblygwyd llawer o gymunedau arfordirol at ddiben penodol neu roeddent yn ddibynnol ar ddiwydiannau unigol y mae eu marchnadoedd wedi dirywio, ac mewn rhai achosion, wedi cau'n gyfan gwbl. Mae cyflogaeth yn tueddu i fod yn dymhorol, gyda chyflogau is, ac yn seiliedig ar y sectorau gwasanaethau a lletygarwch; yn gyffredinol mae llai o swyddi gwerth uwch.

Sylfaen ddiwydiannol: yn aml mae sylfaen

busnes a diwydiant gul mewn cymunedau arfordirol sy'n seiliedig ar nifer bach o sectorau allweddol megis twristiaeth, lletygarwch, bwyd a physgota a thrafnidiaeth; yn gyffredinol mae llai o sectorau gwerth uwch gyda heriau wrth ddenu diwydiannau newydd. Er hynny mae rhai cymunedau arfordirol wedi dod o hyd i ffyrdd o ffitio i farchnadoedd newydd: olew a nwy; ynni adnewyddadwy; twristiaeth arbenigol - golff; hwylio; chwaraeon dŵr.

Demograffeg: mae cymunedau arfordirol yn tueddu i fod â phroffiliau demograffig gwahanol

o'i gymharu â'r wlad yn gyffredinol gyda phoblogaeth hen/wedi ymddeol uwch a llai o bobl ifanc.

Tai: mae cymunedau arfordirol yn tueddu i fod â phatrymau daliadaeth tai gwahanol gyda mwy o ail gartrefi/ cartrefi gwyliau; mewn achosion eraill, mae prisiau tai'n uwch na'r cyfartaleddau rhanbarthol gan ei wneud yn anodd i bobl leol sicrhau llety.

Mynediad i wasanaethau: mae llawer o gymunedau arfordirol yn bell o brif ganolfannau gwasanaethau: gallant fod â mynediad

cyfyngedig i gyfleusterau manwerthu; bod â chysylltiadau cludiant cyhoeddus gwael a mynediad cyfyngedig i ddarpariaeth addysg uwch/addysg bellach.

Isadeiledd Diriaethol: er nad ydynt yn profi heriau tir llwyd/tir diffaith rhai ardaloedd trefol yn aml, gall fod heriau diriaethol o ran ymsuddiant/ erydiad arfordirol; mae gan lawer o gymunedau glan môr amgylcheddau gwael nad ydynt wedi'u huwchraddio ers blynyddoedd lawer.



Gwarchodfa Natur y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar (RSPB) Radipole

Ymateb i anghenion cymunedau'r arfordir

Mae CCA wedi'i ddylunio i gefnogi datblygiad economaidd cymunedau arfordirol trwy hyrwyddo twf economaidd a swyddi cynaliadwy er mwyn i bobl fedru ymateb yn well i anghenion a chyfleoedd economaidd newidiol eu hardal.

Mae'n rhaid i ymgeiswyr ddangos bod eu cynnig yn gweddu i flaenoriaethau economaidd cyffredinol yr ardal leol, gan gysylltu pryd bynnag y bo'n bosib â gweledigaeth economaidd ehangach sydd ag ymrwymiad a chefnogaeth gan bob rhan o'r gymuned.

Mae CCA yn seiliedig ar grantiau ac er y gallwn fod yn unig ariannwr, anogwn ymgeiswyr yn gryf i geisio darparu arian ychwanegol, gan sicrhau felly y gall CCA gyrraedd llawer ymhellach.

Mae CCA yn hyblyg hefyd gan y gall gefnogi ystod eang o brosiectau cyfalaf a refferiw.

Mae enghreifftiau o'r mathau o brosiectau rydym wedi'u cefnogi'n cynnwys:

- datblygu eiddo ac isadeiledd newydd i gefnogi amrywiaethu economaidd
- uwchraddio canolfannau treftadaeth neu ymwelwyr
- creu cyfleusterau ac isadeiledd harbwr newydd
- hyfforddiant mewn adeiladu badau a sgiliau morwrol
- datblygu llwybrau a thramwyfeydd arfordirol
- cefnogaeth ar gyfer y sectorau bwyd a physgota
- cefnogaeth ar gyfer y sector ynni adnewyddadwy
- datblygu gwasanaethau rheilffordd treftadaeth.

Gallwn gefnogi amrywiaeth eang o brosiectau a gweithgareddau a all ymateb i anghenion a chyfleoedd penodol cymunedau arfordirol ledled y DU.



Carbis Bay Hotel Ltd yn cyflwyno prosiect adnewyddu'r blaendraeth

Cynnydd hyd yma

Erbyn mis Mawrth 2014, mae rowndiau un a dau wedi gwneud 103 o ddyfarniadau gyda chyfanswm gwerth o £53.8m.

Roedd y proffil buddsoddi cyffredinol wedi'i rannu 80 y cant Lloegr ac 20 y cant gweddill y DU fel a ddangosir yn **Ffigur 1**. Rhannwyd nifer y dyfarniadau 48 y cant Lloegr a 52 y cant gweddill y DU fel a fanylir yn **Ffigur 2**.


Gwnaed y dyraniadau mwyaf i Dde-ddwyrain, De-orllewin a Gogledd-ddwyrain Lloegr fel a ddangosir yn **Ffigur 3**.

Amrywiodd y dyfarniad cyfartalog o £180,000 yng Ngweddill Yr Alban i £1.4m yn Ne-ddwyrain Lloegr fel a ddangosir yn **Ffigur 4**. Mae hyn yn adlewyrchu tuedd gyffredinol, gyda chyfran uwch o ddyfarniadau'n cael eu gwneud yng Nghymru, Yr Alban a Gogledd Iwerddon ond gyda dyfarniadau o werth uwch yn Lloegr.


Mae'r buddsoddiad gan CCA wedi cefnogi prosiectau sydd â chyfanswm gwerth, gan gynnwys cyllid ar y cyd, o tua £150m fel a fanylir yn **Ffigur 5**.

Roedd y prosiectau â'r gwerth uchaf wedi'u lleoli yn Swydd Efrog a'r Humber, De-ddwyrain a De-orllewin Lloegr, gyda'r uchafswm dyfarniad gwerth mwy na £2.5m. Roedd y prosiectau lleiaf yng Ngweddill Yr Alban gyda'r isafswm dyfarniad gwerth £50,001.


Mae manylion prosiectau a gefnogwyd a'u lleoliadau wedi'u hamlygu yn **Ffigur 6** ac mae mwy o fanylion ar y map Cymunedau'r Arfordir rhyngweithiol yma <http://bit.ly/1yGZzyr>




Ffigur 2: CCA Rowndiau un a dau - nifer y dyfarniadau




Ffigur 4: Gwerth cyfartalog dyfarniadau (£m)



Ffigur 3: CCA Rowndiau un a dau - gwerth y dyfarniadau (£m)




Ffigur 5: Cyfanswm gwerth prosiectau (£m)



³ Note all numbers subject to rounding; East of England includes one project in East Midlands

Ffigur 6: Lleoliadau dyfarniadau CCA Rownd un a rownd dau




Roedd y mwyafrif o'r dyfarniadau yn ôl gwerth yn Ne-ddwyrain a De-orllewin Lloegr - gan gyfrif am 40 y cant o'r holl fuddsoddiadau. Roedd y mwyafrif o'r prosiectau unigol yn Yr Alban - 37 y cant o'r holl ddyfarniadau. Mae gan

Gymru a Gogledd Iwerddon y nifer a gwerth lleiaf o ddyfarniadau, sy'n adlewyrchu eu dyraniadau cyllideb.

Mae **Ffigur 7** yn amlygu'r dyfarniadau fesul math o brosiect a gwerth.

Ffigur 7: Buddsoddiad fesul math o brosiect




Mae mwy o fanylion ar fap rhyngweithiol Cronfa Cymunedau'r Arfordir <http://bit.ly/1yGZzyr>

Mae isadeiledd ac eiddo'n cyfrif am dros 70 y cant o ddyfarniadau fesul nifer a gwerth. Nid yw hyn yn syndod gan fod y rhain yn tueddu i fod yn brosiectau sydd â gofyniad cyfalaf.


Mae **Ffigur 8** yn rhoi manylion nifer a gwerth dyfarniadau fesul prif sector ac fel y disgwylwyd, mae'r sector twristiaeth wedi denu dros 60 y cant o'r holl wariant (tua £33.3m) gyda'r sector bwyd a physgota'n denu buddsoddiad gwerth tua £2.3m.

Ffigur 8: Dyfarniadau fesul Prif Sector



Fel a ddangosir yn **Ffigur 9**, y brif ymgeiswyr a gefnogir yw awdurdodau lleol (sy'n cyfrif am 36 y cant o ddyfarniadau fesul gwerth) a mudiadau'r sector gwirfoddol a chymunedol (sy'n cyfrif am 47 y cant o ddyfarniadau fesul gwerth).

Ffigur 9: Cyfran o ddyfarniadau fesul cyrff cyhoeddus, cwmnïau preifat a'r trydydd sector



CCA yn denu dros £100m o arian ychwanegol

Mae CCA wedi llwyddo i ddenu ariannu o ffynonellau eraill. Mae rowndiau un a dau wedi denu bron £100m o arian cyhoeddus a phreifat i ardaloedd arfordirol.



Bay Leisure Limited, Swansea

Proffil allbwn

Rhagamcanir y bydd prosiectau o CCA rowndiau un a dau'n cynhyrchu'r allbynnau y rhoddir eu manylion yn **Ffigur 10**. Yn erbyn y dangosydd CCA allweddol, mae hyn yn dangos hyd yma y rhagamcanir y bydd y rhaglen yn creu neu'n diogelu bron 10,000 o swyddi. Yn y cam cynnar hwn o'r rhaglen, mae prosiectau wedi adrodd am greu neu ddiogelu dros 3,000 o swyddi.

Mae allbynnau eraill a ragamcanwyd yn cynnwys dros 500 o swyddi adeiladu, 800 o brentisiaethau a 6,000 o achosion o gynyddu sgiliau, bron 800 o fusnesau newydd a chefnogi 2,000 o fusnesau.


At hynny, cefnogwyd dros 100 o gyfleusterau

newydd, uwchraddio 20,000 metr sgwâr o barth cyhoeddus a chreu 4,600 metr sgwâr o eiddo busnes newydd.

Ar allbynnau cyflogaeth posib, mae CCA wedi creu gwerth am arian am gost fesul swydd o £6,835 yn seiliedig ar arian CCA yn unig a £18,875 yn seiliedig ar gyfanswm cost y prosiect.*

Ar sail rhagamcaniadau o allbynnau cyflogaeth ym mhob un o'r prosiectau, disgwylir y bydd CCA yn cynhyrchu gwerth £196m o allbwn GVA blynyddol, sydd 11 gwaith yn fwy na gwerth y buddsoddiad a wnaed trwy CCA a phedair gwaith yn fwy na chyfanswm costau'r prosiect (oherwydd maint bach y rhaglen ni fu'n bosib cyflawni dadansoddiad costau buddion llawn). **

Ffigur 10: Rhagamcaniadau o allbynnau ar gyfer prosiectau rownd un a rownd dau (nifer)



*Mae'r ffigur yn seiliedig ar y rhagamcaniad o'r cyfanswm nifer o swyddi uniongyrchol ac anuniongyrchol ond nid yw'n cynnwys swyddi wedi'u diogelu

** Adroddir am ragamcaniadau creu swyddi fel ffigurau crynswth

Penawdau Cronfa Cymunedau'r Arfordir

Mae Rowndiau un a dau Cronfa Cymunedau'r Arfordir:

wedi buddsoddi dros £50m mewn mwy na 100 o brosiectau ar draws y DU


wedi helpu i ddenu bron £100m o arian arall i mewn

wedi'u rhagamcanu i greu a diogelu bron 10,000 o swyddi

yn mynd i gefnogi dros 800 o brentisiaid a darparu hyfforddiant i dros 6,000

yn mynd i gynhyrchu buddion economaidd i l gwaith yn fwy na gwerth y dyfarniadau CCA

Edrychwn ymlaen at rownd tri CCA sydd yr un mor llwyddiannus ac sy'n parhau i gefnogi adfywio economaidd cymunedau arfordirol y DU.



Mae Seton Care yn darparu hyfforddiant i alluogi cyflogaeth yn y sectorau pysgodfeydd, alltraeth a phrosesu

Rownd tri

Lansiodd gweinidogion y drydedd rownd o CCA ym mis Mawrth 2014. Mae Rownd tri'n cynnwys ariannu ar gyfer 2014/15, 2015/16 a 2016/17. Mae'r rownd ymgeisio hon wedi cau bellach a disgwylir i benderfyniadau ariannu gael eu cyhoeddi yn gynnar yn 2015.

Nid yw unrhyw rowndiau CCA pellach wedi'u cynllunio.

Adroddiad cynnydd blynyddol nesaf

Cyhoeddir adroddiad cynnydd blynyddol nesaf Cronfa Cymunedau'r Arfordir yn hydref 2015. Bydd yr adroddiad yn darparu diweddariad ar gynnydd prosiectau rowndiau un, dau a thri o ran cefnogi adfywio economaidd cymunedau arfordirol y DU.



Astudiaethau achos prosiectau

01.

Cryfhau ac amrywiaethu'r cynnig twristiaeth

Mae llawer o'n trefi arfordirol yn profi heriau economaidd oherwydd ein patrymau twristiaeth newidiol. Mae Cronfa Cymunedau'r Arfordir yn anelu at ymdrin â thymoroldeb trwy greu patrymau galw newydd ar gyfer twristiaeth ac mae'n cefnogi'r sector twristiaeth trwy ariannu gweithgareddau megis darparu atyniadau gweithgareddau newydd, digwyddiadau newydd, gwelliannau isadeiledd a chefnogi busnes. Mae mwy na 64 y cant o brosiectau a ariannwyd yn canolbwyntio ar ddatblygu a chefnogi twristiaeth.

Cyngor Gogledd Tyneside

Dyfarnwyd £1.99m i Gyngor Gogledd Tyneside i greu sgwâr gyhoeddus newydd, gan gynnwys ardal ddigwyddiadau fach, o flaen Cromen Sbaenaidd y Ddinas i uno'r adeilad tirnod â'r glannau. Sicrhawyd £1.12 m pellach yn yr ail rownd o CCA i greu tair uned fusnes a maes parcio i gynyddu nifer yr ymwelwyr â'r ardal.

Rhagamcanir y gallai'r cynllun ddenu 150,000 o ymwelwyr ychwanegol i lannau Whitley Bay bob blwyddyn, gan gynhyrchu oddeutu £3m ar gyfer yr economi leol ynghyd â 25 o swyddi anuniongyrchol. Disgwylir y bydd yr unedau masnachol newydd, a fydd yn edrych dros ardal

newydd ei datblygu Sgwâr Sbaenaidd y Ddinas, yn darparu o leiaf 12 swydd parhaol newydd ac yn creu swyddi adeiladu a chyfleoedd hyfforddiant.

I sicrhau cynaladwyedd y Gromen, mae'r cyngor a'i bartneriaid bellach yn ceisio mynegiadau o ddiddordeb gan fusnesau a allai eisiau meddiannau'r unedau. Bydd sesiwn wybodaeth ar gyfer busnesau sy'n awyddus i fod yn rhan o'r adfywio'n helpu timau dylunio i sicrhau bod yr adeilad yn cael ei adfer mewn ffordd sy'n ystyried gofynion y defnyddwyr terfynol. Disgwylir i'r unedau a'r lleoedd parcio newydd agor erbyn gwanwyn 2015.



“Mae ein gwaith yn Whitley Bay yn prysur gyflymu a bydd y datblygiad diweddaraf hwn yn darparu hyd yn oed yn fwy o fomentwm. Bydd hyn oll yn cael effaith hynod o gadarnhaol ar Whitley Bay a Gogledd Tyneside yn gyffredinol, gan ddenu ymwelwyr newydd a buddsoddiad yn y dyfodol. Dylai roi hyder i drigolion a busnesau lleol bod pethau'n symud ymlaen o ddifrif.”

Norma Redfearn,
Maer Etholedig Cyngor Gogledd
Tyneside

Derbyniodd Deorfa Gimychiaid Genedlaethol Padstow £150,528 i ehangu a thyfu'r mudiad trwy ei fodol menter gymdeithasol. Rhan allweddol o'r prosiect yw hwyluso twf a datblygiad NLH mewn ffordd gynaliadwy, sy'n cynnwys ehangu eu canolfan ymwelwyr.

Mae'r prosiect wedi llwyddo i ddenu cynigion i ddatblygu technoleg acwafeithrin cimychiaid. Mae hyn wedi arwain at greu swydd ychwanegol. Mae'r mudiad wedi trosoli dros £400,000 gan y sector cyhoeddus a £33,000 gan y sector preifat.

Mae'r prosiect yn adrodd bod tua 3,496 o ymwelwyr ychwanegol wedi'u denu i'r ganolfan o ganlyniad i ddatblygiadau a hwyluswyd gan y prosiect, cyfwerth â £407,000 o wariant ychwanegol yn yr economi leol.



Derbyniodd Cymdeithas Datblygu Kilkeel Cyfyngedig £260,872 i gyflwyno Deorfa a Chanolfan Ymchwil Forol gyntaf Gogledd Iwerddon. Bydd y prosiect yn cyflawni ymchwil gan gynnwys rhinweddau etifeddol ar gyfer cyfradd dwf, ffrwythlondeb a gwrthsefyll clefyd gyda Phrifysgol Queens a physgodfa'r glannau leol. Bydd yn creu 3 swydd, yn denu 1,250 o ymwelwyr ychwanegol ac yn cynyddu gwariant ymwelwyr £160,000 trwy ei atyniad addysg ac ymwelwyr.

The Long and Winding Way Limited

Mae llwybr cerdded pellter hir yn Kintyre ar arfordir gorllewinol Yr Alban, sy'n denu twristiaid i'r ardal ac yn galluogi ehangu'r busnes twristiaeth leol, wedi derbyn £240,000 i estyn y llwybr ddeuddeg milltir bellach. Cwblhawyd yr estyniad ym mis Mai 2014 ac mae eisoes yn annog cerddwyr i aros am gyfnod hwy yn Kintyre. Mae pentref Southend wedi elwa o fanteisio ar y farchnad gerdded. Gan fod pwynt terfynol y llwybr ym mhrif dref Campbeltown, mae defnyddwyr y llwybr yn treulio mwy o amser yn y dref hefyd.

Hyd yma, mae'r prosiect wedi cyflogi chwe aelod staff parhaol gan gynnwys 3 phrentis ac yn cydweithio'n agos â chynllun cyflogadwyedd y Gronfa Swyddi Cynaliadwy yn Yr Alban i ddenu mwy o bobl i gyflogaeth. Mae'r prosiect yn cynyddu ymwybyddiaeth o'i lwybr newydd trwy ymgyrch farchnata genedlaethol o ddsbarthu taflenni, hysbysebu ar fysiau taith olygfeydd canol dinas Glasgow ac wedi sefydlu cysylltiadau gyda llwybrau cerdded pellter hir yn Arran a Cowal gerllaw.



02.

Amrywiaethu cyflogaeth arfordirol

Mae lefel anghymesur o gyflogaeth a chynrychiolaeth isel o ran swyddi'n broblem sy'n wynebu ein trefi glan môr. Prif amcan CCA yw ymdrin â'r mater hwn trwy greu twf economaidd a swyddi cynaliadwy er mwyn i bobl fedru ymateb yn well i anghenion a chyfleoedd economaidd newidiol eu hardal. Ers i CCA ddechrau yn 2012, rhagwelir y bydd bron 10,000 o swyddi'n cael eu creu ar draws y 103 o brosiectau a ariannwyd hyd yma.

Mae **Partneriaethau Menter Furness** yn cyflwyno'r rhaglen 'Unleashing Growth in Coastal Furness' i greu swyddi yn Furness. Mae'r prosiect, y dyfarnwyd £900,000 iddo yn rownd un, yn cynorthwyo pobl i ddechrau'r gwaith trwy eu helpu i ddechrau mewn busnes fel entrepreneuriaid newydd, gwella mynediad unigolion i swyddi, marchnata safleoedd glan môr, cryfhau cadwynau cyflenwi a chreu rhwydweithiau i helpu cwmnïau i gydweithio i ddatblygu nwyddau a gwasanaethau newydd.

Mae'r rhaglen Unleashing Growth in Coastal Furness yn anelu at helpu creu 275 o swyddi erbyn 31 Mawrth 2015. Rhagamcanir y bydd gwerth tua £25m o fuddsoddiad ac mae 61 o bobl wedi'u cyflogi mewn busnesau newydd. Ym mlwyddyn un cyflwynodd y prosiect 104 o swyddi ac mae 252 o swyddi newydd ar y gorwel yn seiliedig ar fewnfuddsoddi yn y dyfodol.

Fel rhan allweddol o gyflawni'r canlyniad hwn, canolbwyntiodd Furness Enterprise ar feintioli graddfa debygol buddsoddiadau a datblygu fframwaith strategol i alluogi'r ardal i fanteisio

arnynt. Datblygwyd y fframwaith mewn cydweithrediad â mudiadau partner er mwyn manteisio ar gyfleoedd am dwf.

“Galluogodd Cronfa Cymunedau'r Arfordir i ni ddatgloi cyfleoedd creu swyddi newydd sylweddol. At ei gilydd mae busnesau newydd a gynorthwywyd wedi buddsoddi tua £1 miliwn o'u harian eu hunain. Ar ben hynny derbyniodd 845 o bobl ddi-waith gyngor un i un ar sut i hygyrchu swyddi mewn canolfan galw heibio a leolir yn Barrow.”

Ian Tillotson,
Ysgrifennydd Cwmni - Menter Furness



Cwmni Buddiant Cymunedol Strategaeth Dinas Y Rhyl (RCS)

Mae RCS, y dyfarnwyd £300,000 iddo, wedi datblygu ystod o wasanaethau o dan y prosiect 'Enterprising Solutions' sy'n anelu at symbylu twf mentrau ar draws Conwy a Sir Ddinbych, gan helpu entrepreneuriaid i greu busnesau newydd a llwyddiannus trwy fynediad i gefnogaeth fentora, hyfforddiant, cefnogaeth gan gymheiriaid a lle deori.

Mae gan y prosiect foth datrysiadau cyflogaeth drws agored sy'n helpu unig fasnachwyr, microfusnesau a mentrau cymdeithasol i adeiladu eu gallu trwy gyflogi gweithwyr newydd. Hyd yma, mae'r rhaglen wedi creu 20 o swyddi o fewn ei blwyddyn gyntaf o weithredu, ac wedi cefnogi 62 o bobl i ddatblygu sgiliau newydd. Mae'r gwasanaeth mentora wedi cefnogi dros 76 o gleientiaid, y mae 12 ohonynt wedi sefydlu busnesau newydd gyda'u cefnogaeth.

Mae RCS yn darparu set gyflawn o wasanaethau ar gyfer y rhai y mae angen cefnogaeth arnynt. Er enghraifft, aeth cleient a hygyrchodd gwasanaeth 'fit for work' RCS ymlaen i ddefnyddio'r both cyflogaeth drws agored a'u harweiniodd nhw i'r rhaglen 'Enterprising Solutions' a ariennir gan CCA. Mae'r cleient hwn bellach wedi sefydlu busnes i werthu cynnyrch i fwyty hyfforddi RCS, 'Taste Academy'.



“Ar ôl cael fy niswyddo fis Gorffennaf diwethaf, penderfynais sefydlu fy musnes fy hun yn gwerthu blodau artiffisial. Dechreuais ym marchnad Y Rhyl yn gwerthu rhosynnau pren, gan symud ymlaen at amrediad eang o flodau sidan artiffisial. Ers hynny rwyf wedi creu tuswon priodas arbennig, blodau llabed ac arddangosiadau bwrdd. Mae Strategaeth Dinas Y Rhyl wedi fy nhroi i'r cyfeiriad cywir trwy roi cymorth a chynngor i mi ar gyrsiau ar gyfer busnesau bach.”

(Buddiolwr RCS)

03.

Moderneiddio, ehangu ac amrywiaethu'r isadeiledd busnes a thwristiaeth

Mae buddsoddi mewn isadeiledd busnes yn darparu'r sail ar gyfer gweithgareddau busnes a fydd yn arwain at ganlyniadau cyflogaeth terfynol. Mae dros 43 y cant o brosiectau CCA yn moderneiddio, ehangu ac yn amrywiaethu'r isadeiledd busnes a thwristiaeth.

Cyngor Bwrdeistref Scarborough

Sicrhaodd Cyngor Bwrdeistref Scarborough grant CCA o £2.6m i ddatblygu Parc Busnes Whitby a helpu creu mwy na 2,700 o swyddi ar draws y fwrdeistref. Buddsoddwyd tua £1m o'r grant CCA ym Mharc Busnes Whitby trwy gynllun 'Going for Growth' y cyngor, i agor tir i fyny a gwella isadeiledd yn barod ar gyfer creu fferm wynt alltraeth fwyaf Ewrop. Mae gweddill y grant yn cael ei ddefnyddio i gymorthdal 200 o brentisiaethau mewn peirianeg a chynhyrchu a diwydiannau lleol eraill, ac i ariannu hyfforddiant a chefnogaeth fusnes ar gyfer mentrau gysylltiedig â chyfleoedd sy'n deillio o fwyngloddio potash a ffynonellau adnewyddadwy.

Mae'r cyngor yn rhagfynegi y bydd cyfanswm o 206 o swyddi uniongyrchol a 2,500 o swyddi anuniongyrchol yn cael eu creu yn yr economi leol o ganlyniad i'r prosiect 'Going for Growth'.

Ar ôl cwblhau cam cyntaf y gwaith, mae buddsoddiad preifat pellach wedi'i sicrhau, sydd wedi arwain at greu 20 o swyddi newydd ar unwaith. Mae sefydlu cytundebau lefel gwasanaeth a rhwydweithio â busnesau lleol yn profi'n ffactorau hollbwysig mewn creu swyddi. Er enghraifft, mae Scarborough Jobmatch wedi gweithio gydag ystod o fusnesau lleol i roi hwb i recriwtio lleol gyda 217 o swyddi wedi'u llenwi a 40 o ficrofusnesau'n recriwtio prentisiaid am y tro cyntaf.

“Mae gan y mwynglawdd potash a diwydiant gwynt alltraeth y potensial i drawsnewid yr ardal yn llwyr a dod â dimensiwn newydd i'r economi leol sydd wedi dibynnu ar dwristiaeth am amser mor hir.

Bydd buddsoddi yn y parc busnes a'i isadeiledd, ynghyd â phobl a'u sgiliau, yn helpu i sicrhau ein bod yn y sefyllfa orau bosib i gyfalafu er budd ein trigolion.”

Y Cyngorydd Derek Bastiman ar ran Cyngor Bwrdeistref Scarborough

04.

Buddsoddi mewn treftadaeth arfordirol a'r amgylchedd adeiledig

Mae adfer, cadw a buddsoddi mewn treftadaeth adeiledig newydd yn ffactorau pwysig sy'n arwain at gynnal a chynyddu twf economaidd cynaliadwy. Mae CCA wedi buddsoddi £17m i gadw treftadaeth arfordirol y DU.

Cyngor Dinas Sunderland

Sicrhaodd Cyngor Dinas Sunderland £2m i gyflwyno gwaith isadeiledd a ddylunnir i baratoi ar gyfer datblygiad hir dymor safle Ocean Park a'r glannau yn Seaburn. Mae'r ariannu'n cyflwyno tri cham o waith adeiladu yn Seaburn a ddylunnir i wella'r isadeiledd i ymwelwyr.

Mae dros 85 y cant o'r gweithlu ar gyfer cam un yn byw yn Ninas Sunderland. Mae cynllun strategol a fframwaith dylunio cadarn, ac arian cyfatebol allanol a chan y Cyngor wedi cefnogi cyflwyno adfywiad cynhwysfawr y parth cyhoeddus.

Mae'r cynlluniau'n darparu ardaloedd helaeth o dirlunio caled a meddal, celfi stryd at y diben, manau digwyddiadau newydd, ardaloedd ymweld a goleuadau nodwedd. Mae ffocws ar ansawdd dylunio a chynnwys artistiaid wedi amlygu sefyllfa tirnodau lleol, darparu atebion arloesol i gyfyngiadau ar safleoedd a chyflwyno atebion unigryw i'r amgylchedd, megis y cafffi Roker Pod eiconig a manau addysgol.

Yn arddangos syniadau dylunio o aelodau'r cyhoedd, mae'r prosiect wedi meithrin ymdeimlad o berchnogaeth gymunedol a chreu hyder yn y sector cyhoeddus, ac mae canlyniadau hynny i'w gweld yn y fan a'r lle erbyn hyn.

Ym mis Mehefin 2014, enillodd y prosiect wobwr 'Rhagoriaeth Cynllunio a Dylunio' RTPI (Royal Town Planning Institute) yng nghategori'r parth cyhoeddus.

“Er nad ydym yn siarad am rywbeth sy'n mynd i ddigwydd dros nos, bydd datblygiad y safle Ocean Park yn y dyfodol yn gatalydd mawr yn adfywiad y glannau, gan ein helpu i gyflwyno gwelliannau economaidd, diwylliannol, amgylcheddol a chymdeithasol sylweddol i greu glan môr y gallwn ni i gyd fod yn falch ohono.”

Ysgrifennydd y Cabinet
Y Cyngorydd Mel Speding
Cyngor Dinas Sunderland



05.

Datblygu cyflogaeth a sgiliau

Mae datblygu sgiliau, darparu hyfforddiant a chefnogi pobl i gaffael cymwysterau'n rhoi'r cyfle i unigolion lwyddo mewn marchnad swyddi anodd mewn llawer o drefi glan môr. Mae CCA wedi dyfarnu dros £10.5m i brosiectau sy'n anelu at gynyddu cyfleoedd cyflogaeth pobl trwy greu 850 o leoedd hyfforddi.

RAKtrain Limited

Mae'r prosiect RAKtrain, y dyfarnwyd £756,100 iddo, yn datblygu rhaglenni hyfforddi wedi'u teilwra sy'n benodol i'r diwydiant i bobl ifanc ddi-waith er mwyn eu paratoi ar gyfer swyddi yn y diwydiant ynni adnewyddadwy alltraeth yn Nwyrain Anglia. Bydd ymgeiswyr hyfforddedig yn ymgymryd â swyddi megis technegwyr tyrbinau gwynt a rolau technegol a morwrol lefel mynediad eraill. Mae'r prosiect yn cydweithio'n agos â chyflogwyr i adnabod bylchau sgiliau a chyfleoedd recriwtio, gyda cholegau lleol a darparwyr eraill yn cyflwyno pecynnau hyfforddi wedi'u teilwra, a gyda'r Ganolfan Byd Gwaith i adnabod ymgeiswyr addas. Mae'r prosiect dwy flynedd yn anelu at gefnogi 126 o hyfforddeion i ennill sgiliau newydd a sicrhau cyflogaeth yn y sector cynyddol bwysig hwn yn yr economi leol.

“Dim ond diweddariad cyflym ar gynnydd yn fy swydd ers gwneud y rhaglen RAKtrain i ennill ardstiad am waith alltraeth.

Ers i mi gael fy nghynnig yn garedig ar gyfer cyfweiliad ar ôl y cwrs, rwyf wedi bod yn ddigon ffodus i gael cynnig swydd fel Technegydd Tyrbinau Gwynt Gradd 3. Ar ôl cwblhau'r lefel 2 a 3 gyda Siemens yr wythnos hon rhoddwyd fy nhasg gyntaf o wasanaethu tyrbinau i mi - hoffwn ddiolch i bawb yn RAKtrain am roi'r cyfle gwych hwn i mi!”

(Buddiolwr RAKtrain)

Hyd yma, mae RAKtrain wedi hyfforddi 54 o unigolion ac mae 47 wedi sicrhau swyddi i fodloni galw cynyddol yn y sector. Mae sefydlu'r berthynas ragorol hon gyda diwydiant wedi bod yn rhan allweddol o gyflawni hyn.

Mae ffactorau llwyddiant eraill yn cynnwys 'bod yn ymatebol i'r cyflogwr' a sicrhau bod hyfforddiant wedi'i deilwra. Mae hyn wedi helpu'r prosiect i ymateb i newidiadau yn y farchnad, ac adolygu cyfundrefnau hyfforddi i adlewyrchu anghenion y diwydiant.

06.

Gwella harbws a phorthladdoedd ar gyfer y 21ain Ganrif

Yn ogystal â newid tirwedd ddiriaethol trefi a phorthladdoedd arfordirol, mae gwella neu adeiladu ein docfeydd, harbws a cheiau yn dod â gwelliannau amgylcheddol i ardaloedd lleol. Mae CCA wedi buddsoddi tua £4m mewn prosiectau lle'r oedd y prif ffocws ar wella harbws a phorthladdoedd.

Ymddiriedolaeth Harbwr Eyemouth

Dyfarnwyd £115,487 i Ymddiriedolaeth Harbwr Eyemouth am osod pontynau arnawf, deciau gwrthlithro a bolardiau gwasanaeth wedi'u cysylltu â chyflenwadau dŵr ffres a thrydan.

Mae'r cyfleusterau newydd ar ochr orllewinol yr harbwr mewnol, islaw'r hen farchnad bysgod, yn cynnwys 100m o angorfeydd ychwanegol ar y cei ar gyfer ystod o fadau hamdden ac yn darparu mynediad ar gyfer teithwyr i'r glannau ar ale.

Mae'r prosiect yn optimeiddio'r defnydd o asedau diriaethol, naturiol ac economaidd yr arfordir ac yn eu gwneud yn haws cael mynediad iddynt. Bydd hyn yn cael yr effaith ddeuol o greu buddion ar gyfer busnesau lleol gan gynnwys y sectorau morol, manwerthu a bwyd a diod. Mae hyn yn galluogi Eyemouth i gystadlu yn y sector hamdden forol mewn dull tebyg i'r nifer mawr o gyfleusterau yng Ngogledd-ddwyrain Lloegr a'r Firth of Forth.

Yn ogystal â hyn, trwy ddatblygu isadeiledd, mae'r prosiect yn galluogi amrywiaethu yn y dyfodol i ffwrdd o ddibyniaeth ar bysgodfeydd, gan ganiatáu twf economaidd cynaliadwy a chyflogaeth ychwanegol yn y gymuned, sy'n gweddu i'r tueddiadau a brofir mewn llawer o borthladdoedd bach bregus ar arfordir dwyreiniol y Deyrnas Unedig.

“Gyda'r arian hwn bydd modd i ni ddyblu'r ddarpariaeth bontynau bresennol. Ynghyd â gwaith arall rydym yn ei wneud bydd yn gwneud yr harbwr yn llawer mwy atyniadol a hygyrch i iotiau a cherbydau hamdden eraill sy'n ymweld, a bydd yn gwella'r gwasanaeth i'r badau siarter plymio sy'n gweithio allan o Eyemouth.”

Christine Bell, Rheolwr Busnes
Ymddiriedolaeth Harbwr Eyemouth





Cyflwynir gan y Gronfa Loteri Fawr ar ran
Llywodraeth y DU a Gweinyddiaethau
Datganoledig Cymru, Yr Alban a Gogledd Iwerddon

**Clawr Blaen: Pier ac Ymddiriedolaeth
Dreftadaeth Clevedon
Credyd i: J Sansum**

**Llun: Rheilffordd Swanage
Credyd i: Andrew P.M Wright**

**Llun: Hurio Beiciau Plymouth
Credyd i: Gillespie Yunnie a Richard
Downer**

Am fwy o wybodaeth ewch i'r wefan
Cronfa Cymunedau'r Arfordir:
www.biglotteryfund.org.uk/welsh/global-content/programmes/uk-wide/coastal-communities

© Cronfa Loteri Fawr, Tachwedd 2014

Am unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r cyhoeddiad hwn neu os oes angen y cyhoeddiad arnoch mewn fformat amgen, anfonwch e-bost i ccf@biglotteryfund.org.uk neu ffoniwch 0300 123 0735.